Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Penglais
# Heol Penglais
# Aberystwyth
# SY23 3DU

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 8,9 2013**

**gan**

**Branwen Llewelyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2013**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Penglais yn feithrinfa a adeiladwyd i'r pwrpas yn 2012 ar gampws Prifysgol Aberystwyth ar gyrion tref Aberystwyth yn Sir Ceredigion. Mae'r cylch yn rhan o Brifysgol Aberystwyth ac mae'n gwasanaethu'r gymuned leol hefyd. Mae wedi'i gofrestri fel meithrinfa breifat o dan Ddeddf Plant 1989. Rheolir gan bwyllgor rheoli wedi'i gynnwys o aelodau staff Prifysgol Aberystwyth. Mae'r Cylch Meithrin yn cael ei gynnal yn y feithrinfa ar bum bore'r wythnos am gyfnod penodedig yn unol â chanllawiau cydnabyddedig Mudiad Meithrin. Cofrestrwyd y feithrinfa ar gyfer hyd at bum deg wyth o blant.

Mae'r cylch yn darparu gofal ar gyfer plant staff a myfyrwyr y brifysgol a phlant o'r gymuned leol a'r ardaloedd o'i chwmpas ar bum diwrnod yr wythnos o 8.00 tan 6.00 am bum deg wythnos y flwyddyn. Cynhelir y cylch meithrin am dri deg naw wythnos y flwyddyn. Mae'r cylch yn derbyn plant o dair blwydd oed i fyny ac maent yn gadael pan fyddant yn dechrau eu haddysg statudol fel arfer yn Ysgol Gynradd Gymraeg Plascrug lle mae'r feithrinfa'n cynnal clybiau ar ôl ysgol.

Mae'r adeilad yn cynnwys dau lawr, un ar lefel y tir ac un oddi tanodd, a cheir mynediad o'r llawr cyntaf. Ar y llawr yma mae'r dderbynfa a swyddfa'r rheolwr. Mae drws diogel sy'n rhoi mynedfa i'r brif feithrinfa. Defnyddir ardal y feithrinfa ar gyfer y babanod a phlant dan ddwy a cheir ystafell ar gyfer y ddwy oed yn ogystal ag ardal fwydo i'r babanod ac ystafell ymolchi. Mae'r is lawr, y ceir mynediad iddo naill ai gyda grisiau neu lifft, wedi'i neilltuo ar gyfer y plant dwy a thair blwydd oed. Mae yna doiledau addas i blant bach. Ceir ystafell fawr ar gyfer pob grŵp yn arwain at ystafell ymolchi a rhennir gan y ddau. Ar y llawr hwn hefyd mae'r gegin a'r ardal fwyta. Mae drysau'n rhoi mynediad i ardal helaeth o dir glas llethrog ddeniadol iawn sy'n cynnwys coed a llwyni aeddfed. Ceir hefyd ardal chwarae ddiogel dan do.

Mae'r feithrinfa'n ddwyieithog ac fe siaredir Cymraeg a Saesneg ynddi. Adeg yr arolygiad roedd pump o blant wedi eu hariannu ac nid oedd un ohonynt yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith. Roedd tri yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Mae nifer o'r plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac roedd dau'n mynychu'r feithrinfa a chanddynt Saesneg fel ail iaith. Yn ystod yr arolygiad nid oedd un plentyn wedi ei gofrestri ag anghenion addysg ychwanegol.

Mae tri o ymarferwyr yn cael eu cyflogi i weithio gyda'r plant tair blwydd oed ac maent i gyd yn meddu ar gymwysterau priodol i'r blynyddoedd cynnar. Roedd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar 27 Chwefror, 2013 ac arolygwyd y lleoliad gan Estyn yng Ngorffennaf 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn teimlo'n hapus a diogel yn y feithrinfa;
- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- mae'r amgylchedd dysgu rhagorol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf er mwyn cyfoethogi dysgu'r plant;
- mae safon yr addysgu'n gyson dda;
- mae'r ystod eang o brofiadau diddorol a gweithredol yn sicrhau bod y plant yn mwynhau ac yn ymgymryd â'i dysgu gyda brwdfrydedd;
- asesu drwy arsylwi a'r defnydd effeithiol a wneir o hyn i gynllunio'r camau nesaf, a'r
- defnydd effeithiol o'r gymuned i gyfoethogi dysgu'r plant.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- mae diwylliant o fyfyrio proffesiynol yn bodoli sydd wedi ei seilio ar hunanarfarnu;
- mae safon dda'r arweinyddiaeth yn rhoi cyfeiriad strategol clir;
- ymrwymiad y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac
- mae'r tîm sydd wedi'i hir sefydlu'n sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd a gweithia'r ymarferwyr yn dda iawn gyda'i gilydd.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r lleoliad:

A1. Gwella ar fedrau iaith Gymraeg y plant

A2. Ymestyn y defnydd o gwestiynau pen agored er mwyn datblygu ymhellach medrau meddwl y plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

Nis adroddir ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles am nad oes digon o blant o dair blwydd oed i adrodd arnynt heb nodi plant unigol

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystod eang o brofiadau diddorol a dychmygus ymhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd â diddordebau'r plant yn dda gan fod yr oedolion yn cynnwys syniadau'r plant yn eu cynllunio. O ganlyniad mae'r ddarpariaeth yn diddori'r plant am gyfnodau hir wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau sydd yn ystyrlon iddynt. Mae'r cynllunio cyfnod byr, canolig a hir yn sicrhau fod y plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio themâu diddorol er mwyn gwneud y dysgu'n berthnasol a phwrpasol ac adeiladu'n gyson ar yr hyn mae'r plant yn gwybod a deall. Gweithiant yn effeithiol fel tîm i weithredu'r hyn a gynlluniwyd ond ar yr un pryd maent yn hyblyg. Os yw'r plant yn ymddiddori'n arbennig mewn gweithgaredd neu os bydd rhywbeth annisgwyl yn digwydd, maent yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau. Mae'r ymarferwyr yn ymestyn profiadau plant yn dda trwy ymweliadau, er enghraifft i'r traeth a thrwy gysylltiadau da gyda'r gymuned. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd i'r llyfrgell yn rheoliad ac i'r siop leol i brynu cynhwysion ar gyfer coginio. Gwna'r feithrinfa ddefnydd da o ymwelwyr hefyd i gyfoethogi profiadau'r plant a daw pobol o'r frigâd dân, yr heddlu a rhieni i mewn i siarad am eu rôl yn y gymuned.

Mae'r plant yn dewis o'r ystod eang o weithgareddau diddorol a ddarperir ac mae hyn yn datblygu'n dda eu hunanhyder a'u hannibyniaeth. Mae'n sicrhau hefyd fod y plant yn ymgymryd llawn cystal mewn gweithgareddau sydd wedi eu cyfeirio oherwydd y maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau. Mae'r cydbwysedd hyn o weithgareddau a gallu'r ymarferwyr i ymyrryd yn effeithiol iawn er mwyn symud y dysgu yn ei flaen yn nodweddion da. Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn dda ym mhob maes dysgu ac yn sicrhau eu bod oll yn gwneud cynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Maent hefyd yn darparu llawer o gyfleoedd i'r plant fwynhau profiadau newydd a diddorol, datrys problemau ac maent yn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain gan ddatblygu eu sgiliau datrys problemau'n dda. Mae ymarferwyr yn rhoi i'r plant gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol a dealltwriaeth o bethau byw trwy eu defnydd da o'r ardal tu allan. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n dda er mwyn cwrdd â gwahanol anghenion a galluoedd y plant a'u cynorthwyo i wneud cynnydd da.

O ganlyniad i'r profiadau dysgu diddorol a'r perthnasau cadarnhaol, mae'r plant yn datblygu hyder, goddefgarwch a medrau cymdeithasol da. Mae hyn yn eu galluogi i dderbyn yn gwbl naturiol blant ac oedolion o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig. Maent yn dathlu gwyliau fel Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen a gwneud bwydydd traddodiadol Cymreig. Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei ddatblygu'n dda trwy sesiynau penodol a chaiff y plant fodel naturiol o'r Gymraeg. Mae ymarferwyr yn annog y plant i siarad Cymraeg bob amser ac yn datblygu eu geirfa a'u patrymau iaith trwy rigymau, caneuon a storïau sy'n cynnwys geirfa ac iaith gyfoethog. Er bod y plant yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn nid oes ganddynt eto'r medrau i'w defnyddio'n naturiol wrth chwarae. Caiff ymwybyddiaeth o gynaladwyedd a'r dylanwad ar yr amgylchedd hefyd ei hyrwyddo'n dda trwy ailgylchu a gwneud gwrtaith i fwydo'r planhigion a blodau a dyfant o had.

## Addysgu: Da

Mae'r oedolion profiadol a chanddynt gymwysterau da yn defnyddio ystod o strategaethau dychmygus i ddenu'r plant i ddysgu. Mae gweithgareddau ystyrlon fel chwarae gemau tu allan ar ôl trafod siâp neu barau'n sicrhau eu bod yn dysgu'n naturiol trwy chwarae. Mae'r addysgu'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda gan ei fod yn seiliedig ar chwarae, yn hyblyg ac yn ddiddorol. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac maent yn eu galluogi i gwrdd â'r rhain. Mae'r gymhareb dda o ymarferwyr i blant yn rhoi iddynt ddealltwriaeth dda iawn o'r plant ac yn eu cynorthwyo i'w cefnogi a chwrdd â'u hanghenion unigol. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol a sensitif ac o ganlyniad mae'r plant yn dysgu tueddfrydau pwysig gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch, sensitifrwydd a charedigrwydd tuag at eraill. Ar y cyfan mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gwestiynau pen agored i hyrwyddo dysgu'r plant ond nid ydynt yn ei ddefnyddio'n ddigonol i ymestyn yn llawn eu medrau meddwl.

Mae asesu wedi'i seilio ar arsylwadau o'r plant sydd yn cael eu cofnodi'n anffurfiol ac yna'u defnyddio i gwblhau llyfryn "Trosglwyddo Gwybodaeth" unigol y plant. Caiff y rhain eu trafod mewn cyfarfodydd staff a'u defnyddio i lywio'r cam nesaf o gynllunio. Maent yn cadw cofnodion parhaus o gyraeddiadau'r plant sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad pob plentyn. Caiff cynnydd y plant ei fesur yn gyson ymhob maes dysgu ac mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Mae'r rhieni yn derbyn adroddiad defnyddiol am eu plant pan fyddant yn gadael i fynd i'r ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ymarferwyr wedi creu amgylchedd gofalgar a chynhwysol ac mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a hapus iawn. Mae'r staff yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant. Maent yn cynorthwyo'r hwynt i ddysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd gan arddangos y nodweddion yma eu hunain. Rhoddant i'r plant gyfleoedd da i gymdeithasu amser byrbrydau ac mae'r achlysuron hyn yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd parchu eraill. Mae pob un yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg yng nghyd-destun eu bywydau yn y lleoliad ac maent yn cael cyfleoedd cyson i

wneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau yn y feithrinfa. Caiff plant eu hannog i gymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd ac ymddwyn yn dda. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu gydag eraill ac fe'u hanogir i arsylwi ar a meddwl am ryfeddodau'r byd naturiol yn eu hardal hyfryd tu allan. Er enghraifft, maent yn mynd am dro wrth ochr y ffrwd ac yn y goedlan ar bwys y feithrinfa i weld y clychau'r gog a newidiadau'r tymhorau. Wrth ddathlu gwyliau a gwneud a phrofi gwahanol fwydydd maent yn datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau. Mae ymarferwyr yn datblygu'n dda ymwybyddiaeth y plant o fwyta'n iach ac o gadw'n heini drwy ddarparu byrbrydau iachus a sesiynau ymarfer corfforol cyson.

Mae gweithdrefnau da a sefydledig gyda gwasanaethau cynhaliaeth broffesiynol leol i ddarparu cefnogaeth arbenigol i blant pan fydd angen. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad llawn i bob agwedd o'r dysgu a hefyd i bob peth sy'n digwydd yn y lleoliad. Mae'r rhieni'n cymryd rhan dda yn addysg eu plant.

Mae'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer diogelu'n weithredol, yn bodloni rheoliadau diogelu ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant yn ddiweddar ac yn gwybod y camau i'w cymryd. Mae'r gweithdrefnau'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae'r lleoliad yn defnyddio'n dda arbenigedd y gwasanaeth iechyd ac eraill yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ethos sy'n bodoli yn y lleoliad yn arbennig o gynhwysol, gofalgar sydd wedi'i seilio'n gadarn ar anghenion y plentyn. Defnyddia'r ymarferwyr yr ystod eang o gefndiroedd y plant mewn ffordd ragorol a naturiol i ddathlu amrywiaeth ac o ganlyniad mae pob oedolyn a phlentyn yn oddefgar a charedig ac nid oes unrhyw bryder ar ran y plant. Mae perthnasau rhagorol yn sail gadarn i fywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion a diddordebau yn arbennig o dda ac yn defnyddio'r wybodaeth yma'n dda iawn i'w helpu i ddysgu. Maent yn hyrwyddo'n gyson safonau uchel o ymddygiad ac yn sicrhau cyfartaledd.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn rhagorol a chyfranna hyn, ynghyd ag adnoddau o ansawdd o'r safon uchaf ar gyfer y Cyfnod Sylfaen at ragoriaeth yr amgylchedd dysgu. Mae'r adeilad a'r adnoddau yn rhagorol a darpara'r feithrinfa amgylchedd dysgu sy'n atyniadol a chyffrous iawn. Mae'r ardal o laswellt llethrog yn darparu cyfleoedd rhagorol ar gyfer datblygu medrau datrys problemau'r plant wrth iddynt arbrofi gyda phethau gallant eu dringo a'u gwthio a thynnu. Mae'r gwahanol ardaloedd tu allan yn rhoi cyfleoedd rhagorol hefyd ar gyfer chwarae rôl ac i ddysgu am y byd naturiol o'u cwmpas ac mae'r ardal allanol yn cyfoethogi dysgu'r plant yn neilltuol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd wedi creu ethos arbennig sy'n sicrhau fod pob plentyn yn cyflawni ei botensial. Mae ganddi weledigaeth glir ynglŷn â'r ffordd ymlaen ac mae hi'n rhoi cyfeiriad clir i fywyd a gwaith y lleoliad a'r broses o wella sydd wedi seilio'n gadarn ar wybodaeth dda o sut mae plant ifanc yn dysgu.

Mae hi'n cydweithio'n dda gyda'r dirprwy, y rheolaidd prosiect a'r ymarferwyr ac maent yn rhannu egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi'u seilio ar wybodaeth dda o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael ei gweithredu trwy'r profiadau dysgu gweithredol a gaiff y plant sy'n nodwedd dda. Fe'u gwelwyd hefyd yn y cyfleoedd a roddir iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, magu hunanhyder ac annibyniaeth ac i wneud cynnydd da.

Mae'r pawb yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant. Mae'r arweinydd a'r rheolwraig yn cydweithio wrth gynllunio'n strategol yn dda iawn ar gyfer dyfodol y lleoliad. Maent yn rhannu'r gwerthoedd, nodau ac amcanion y maent am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrwy drafodaeth gyson. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain, o'r staff ac o'r plant yn ogystal â thargedau sy'n sicrhau safonau da o gyflawniad. Mae'r tîm o ymarferwyr sydd wedi'i hir sefydlu'n sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd a gweithiant yn dda iawn gyda'i gilydd.

Mae'r rheolwraig a'r arweinydd yn ymwybodol o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac yn deall a chyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn gwybod yn dda am berfformiad y lleoliad ac yn defnyddio gwybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol. Mae'r rheolwraig yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac maent yn deall a chyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn gwybod yn dda am berfformiad y lleoliad a defnyddiant wybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn. Mae'r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r awdurdod, er enghraifft, gofynion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arwain at strategaethau ar gyfer gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'i hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r arweinydd yn ymgynghori gyda'r staff, rhieni a gofalwyr i fwydo'r hunan arfarnu. Mae'n defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth y rhieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu. Mae'n gwneud defnydd effeithiol hefyd o gefnogaeth athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol ac mae'r staff yn gweithredu ei hargymhellion yn effeithiol.

Cynhyrchwyd cynllun gwella lleoliad yn sgil y broses o hunan arfarnu sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad ac sy'n canolbwyntio ar godi safonau trwy osod targedau i wella'r ddarpariaeth.

Mae'r ymarferwyr yn cael cyfweliad blynyddol gyda'r rheolwraig i reoli perfformiad ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol. Defnyddiant weithdrefnau cadarn y brifysgol ar gyfer hyn. Maent yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnswydd yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn gyson er mwyn datblygu dulliau newydd o addysgu. Gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn y maent wedi dysgu. Mae'r arweinydd wedi ymweld â lleoliadau eraill i weld arfer dda ac mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd hyfforddiant gydag ymarferwyr eraill wedi'u trefnu gan yr awdurdod lleol i drafod datblygiadau cyfoes.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n dda gydag eraill i gyflwyno profiadau dysgu. Mae'r arweinydd yn gweithio yn agos ac effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Mae canlyniadau cadarnhaol o'r bartneriaeth hon i'w gweld yn y gwelliannau yn y ddarpariaeth a safonau.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid, yn enwedig y rhieni, ac maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau ganddynt. Mae bwrdd hysbysu sy'n rhoi gwybodaeth i rieni ynglŷn â gweithgareddau'r feithrinfa a chroesawir argymhellion gan rieni. Yn ystod yr arolygiad dywedodd detholiad o rieni eu bod yn fodlon iawn gyda'r lleoliad. Mae partneriaeth dda gyda'r ysgol lle mae'r feithrinfa yn rhedeg clybiau ar ôl ysgol a lle mae'r plant yn mynd ar ymweliadau'n hyrwyddo trosglwyddiad llwyddiannus pan fyddant yn gadael. Mae athrawes o'r ysgol gerllaw wedi ymweld â'r plant yn y feithrinfa cyn iddynt drosglwyddo iddi.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cael eu lleoli'n dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u harbenigedd a sicrhau darpariaeth dda. Mae'r staff yn defnyddio adnoddau y tu fewn yn effeithiol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant. Maent yn mesur effaith yr adnoddau ar y dysgu a'r addysgu ac yn cynllunio ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Maent yn defnyddio'r awyr agored yn dda iawn i ddatblygu medrau'r plant ymhob maes dysgu drwy brofiadau uniongyrchol cyffrous sy'n cynnig her iddynt; dyma un o gryfderau'r feithrinfa.

Gwna'r arweinwyr y defnydd gorau o adnoddau'r lleoliad ac o'r cyllid i gynnig y ddarpariaeth orau a llwyddiant i wneud hyn. Mae'r lleoliad yn blaenoriaethu ei wariant i ymateb i'w dargedau ar gyfer gwelliant. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu gwerthuso'n effeithiol gan y rheolwraig er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol wrth godi safonau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Yn ystod yr arolygiad roedd plant yn awyddus i ddod i'r feithrinfa. Mae eu perthnasau gyda'u ffrindiau ac oedolion yn rhagorol ac maent yn hapus iawn yn y lleoliad. Mae'r ethos croesawgar a chynhwysol yn sicrhau eu bod oll yn teimlo'n hapus a diogel. Roeddent yn mwynhau siarad gydag oedolion gan gynnwys ymwelwyr ac yn gofyn ac ateb cwestiynau'n hyderus. Mae pob plentyn yn gwybod bod yr ymarferwyr yno i'w helpu.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Branwen Llewelyn Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |